**RHINOGAU**

Mae daeareg yr ardal hon yn eithaf unigryw, gyda'i haenau llorweddol yn creu nifer enfawr o glogwyni bach a brigiadau caregog. Ar un adeg byddai'r nodweddion caregog i gyd yn ymwybodol i'r bugeiliaid, ond mae llawer o'r enwau bellach wedi'u colli.

**Clogwyn Pot SH 654309**

Gall yr enw fod yn un sy'n cyfeirio at ffurf y clogwyn yn debyg i bot 'llestr coginio' o ryw fath. Y fath o ffurf efallai na fyddwn byth yn gwybod. Neu, a oes cyfeiriad at gysylltiad hir anghofiedig â pothan 'cenau blaidd'; hefyd, rhaid cofio Clogwyn Spot ger Dolwyddelan.

**Craig Aberserw SH 695265**

Aberserw yw enw fferm i'r Gogledd Ddwyrain, mae Afon Serw drosodd ar yr ochr arall y bryn (7027). Yma, mae'r term craig 'tir creigiog' yn dynodi'r tir fel porfa fynyddig y fferm.

**Craig Fawr SH 679355**

Nid un clogwyn mawr sydd mewn gwirionedd, ond nifer o greigiau bach sy'n ffurfio llechwedd eang ac yn anodd iawn ei ddringo.

**Craig Wion SH 662321**

Mae yna bosibilrwydd bod enw personol Gwion ar gael; roedd yna annedd fechan o'r enw Hafotty Craig Wion (SH 673324) ar y mapiau cynnar. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ffurfiau cynnar, a'i enw syn deillio o hwi 'annog, gyrru' y sŵn a ddefnyddir wrth yrru defaid neu wartheg neu annog cŵn i hela. Ffridd Craigwyon 1641 anhysbys, Graig-weon 1831 AO, Craig Wion 1838 AO.

**Craig y Cae SH 708235**

Yr enw presennol ar y clogwyn yw craig 'clogwyn' + cae 'lloc, encilfan'; fodd bynnag, yr enw ar fap 1830 yr AO yw Craig Cau, ymddengys y byddai disgrifydd cau 'caeedig' cyd-fynd yn fwy â ffurf y clogwyn. Cofnodwyd y clogwyn fel 'Kraig y Kay odhiar lyn y Kay' yn y Parochialia c.1700; fodd bynnag, un enw lleol addas iawn ar y clogwyn yw Tŵr Main h.y. tŵr cul.

**Craig y Grut SH 636213**

Mae gan sawl ardal yn y mynyddoedd hyn greigiau sy'n debyg iawn i grut melinfaen; tybed a gai'r graig leol hon ei defnyddio mewn melinau?

**Craig y Merched SH 693231**

Merched yw lluosog y gair merch 'geneth, dynes ifanc', Cernyweg Canol *myrgh, mergh*, Llydaweg Canol *merch*,. Mae sawl chwedl yn ymwneud a merched yn y tirlyn, enwedig gyda llynnoedd. Ai llygriad o enw'r planhigyn merch, mers sydd yma?

**Llawlech SH 633221**

Dyma enw sydd ar y graig, ond enw ar y gefnen/mynydd oedd ar y mapiau cynnar, gweler Llawlech yn y darn ar fynyddoedd.